# Treth y Cyngor

## Anheddau Sydd Wedi'u Heithrio

**DOSBARTH K**

**ENW:**

**CYFEIRIOD:**

FFURFLEN EITHRIO RHAG TRETH CYNGOR AR EIDDO
(LLETY A ADAWYD YN WAG GAN FYFYRIWR {NEU FYFYRWYR})

Bydd y ffurflen hon yn helpu'r Cyngor benderfynu a ddylai eich eiddo gael ei ryddhau rhag talu'r Dreth Gyngor. Bydd o gymorth i'r Cyngor Sir hefyd benderfynu o ba ddyddiad i ba ddyddiad y gellir caniatau hyn.

I fod yn gymwys, rhaid i'r llety fod yn wag a rhaid mai hwn oedd unig, neu brif gartref y perchnogion, sy'n fyfyrwyr, a bod neb arall, ar wahan i fyfyrwyr, yn byw yno. Rhaid i'r myfyrwyr fod yn 'bobl gymwys', hynny yw, mai hwy ddylai dalu'r Treth Cyngor, onibai am yr eithrio. Mewn rhai achosion, gall fod y bobl gymwys heb fod yn fyfyrwyr tan iddyn nhw adael eu prif gartrefi. Os felly, rhaid iddyn nhw fod yn fyfyrwyr o fewn chwech wythnos i adael y llety, er mwyn i'r eithriad fod yn ddilys. Mae'r eithriad yn parhau cyhyd ag y bo'r bobl yn dal i fod yn fyfyrwyr.

**OS GWELWCH YN DDA, DARLLENWCH Y NODIADAU YCHWANEGOL CYN CWBLHAU'R FFURFLEN HON**

Ai'r diwrnod diwethaf i chi fyw yn y llety oedd y diwrnod cyn i chi fod yn fyfyriwr/wraig? IE/NAGE

Enw a chyfeiriad y sefydliad addysgiadol yr ydych yn ei fynychu: ________________

______________________________________________________________________________

______________________________________________________________________________

Teitl y cwrs:__________________________________________________________________

Dyddiad dechrau'r cwrs: ________________ Dyddiad gorffen y cwrs: ______________

**DATGANIAD**
Rwy'n deall y gall y Cyngor ddymuno archwilio'r wybodaeth a roddais. Byddaf yn dweud wrth y Cyngor ar unwaith am newid yn statws yr eiddo. Rwy'n deall o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, y gellir erlyn unrhyw un sy'n rhoi gwybodaeth ffug neu gellir rhoi cosb. Cyn belled ag y gwn mae'r wybodaeth uchod yn wir ac yn gywir.

**Llofnod** ________________________________ **Dyddiad** ______________________
N.B. Gall y Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth yma i bwrpas perthnasol arll.

# Treth y Cyngor

## Anheddau Sydd Wedi’u Heithrio

**DOSBARTH K**

**NODIADAU YCHWANEGOL**

I bwrpas Treth Cyngor, mae myfyrwyr yn:

1. Bobl sydd wedi ymuno Ô chwrs addysg amser-llawn mewn sefydliad addysg Cydnabyddedig.

2. Bobl o dan 20 oed sy'n ymgymryd Ô chwrs addysgiadol cymwys (un sy'n parhau am o leiaf dri mis, yn golygu o leiaf 12 awr yr wythnos a heb fod yn gwrs addysg uwch). Nid yw dosbarthiadau nos na hyfforddiant galwedigaethol yn gymwys.

3. Gynorthwy-wyr iaith dramor a ystyrir fel myfyrwyr yn ystod unrhyw gyfnod pan benodir hwy i swyddi felly mewn ysgol neu unrhyw sefydliad addysgiadol ym Mhrydain Fawr.

Rhaid bod y cwrs yn un lle disgwylir, fel arfer, i'r sawl sy'n ymgymryd ag ef fod yn bresennol am o leiaf 24 wythnos mewn blwyddyn academaidd neu flwyddyn galendr, a bod natur y cwrs gyfryw fel bod angen, fel arfer, i berson sy'n ymgymryd ag ef , i dreulio cyfnodau o astudio, hyfforddiant neu brofiad gwaith sydd, gyda'i gilydd, ymhob blwyddyn academaidd neu galendr, yn cyrraedd cyfanswm oriau gwaith sydd, ar gyfartaledd, yn o leiaf 21 o oriau'r wythnos.

Sefydliadau addysgiadol cydnabyddedig yw:

1. Prifysgol (gan gynnwys coleg cyfansoddol, ysgol neu sefydliad arall o fewn y Brifysgol).

2. Sefydliad canolog neu goleg addysg yn yr Alban.

3. Coleg Addysg yng Ngogledd Iwerddon.

4. Sefydliad o fewn sector ariannu'r PCFC yn unol Ô Deddf Diwygio Addysg 1988.

5. Coleg Diwinyddol.

6. Unrhyw sefydliad arall yng Nghymru neu yn Lloegr a sefydlwyd, yn unswydd, neu yn bennaf, i ddarparu cyrsiau addysg bellach.

7. Unrhyw sefydliad arall yn yr Alban neu yng Ngogledd Iwerddon a sefydlwyd, yn unswydd, neu yn bennaf, i ddarparu cyrsiau addysg bellach.

8. Unrhyw sefydliad Ô chydnabyddiaeth yr Asiantaeth Hyfforddi Athrawon neu, yng Nghymru, sydd Ô chydnabyddiaeth y Cyngor Ariannu Addysg Uwch yng Nghymru.

Nid yw'r nodiadau hyn yn holl-gynhwysol. Os oes gennych unrhyw ymholiad pellach cysylltwch, os gwelwch yn dda, Ô'r adran Treth Cyngor ar y rhif ffôn a welir uchod.

Gallwch gyflwyno'ch ffurflen gais wedi'i chwblhau:

- drwy e-bost i refeniw@sirddinbych.gov.uk, neu
- drwy'r post i'r Adran Refeniw, Ty Russell, Ffordd Churton, Y Rhyl, LL18 3DP
- yn bersonol mewn unrhyw Siop Un Alwad